

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A458
(Cylchfan Raven, y Trallwng,
Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros
Dro) 2021

The A458 Trunk Road (Raven
Roundabout, Welshpool, Powys)
(Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2021

Gwnaed 24 Chwefror 2021

Made 24 February 2021

Yn dod i rym 1 Mawrth 2021

Coming into force 1 March 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A458, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A458 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Cylchfan Raven, y Trallwng, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021 a daw i rym ar 1 Mawrth 2021.

1. The title of this Order is the A458 Trunk Road (Raven Roundabout, Welshpool, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2021 and it comes into force on 1 March 2021.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; Section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 1 Mawrth 2021 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A458 Amwythig i Ddolgellau.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o ganol cyffordd Raven Street â Chylchfan Raven hyd at bwynt 10 metr i’r dwyrain o’r gyffordd honno.

Cymhwys

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

24 Mawrth 2021



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A458 Shrewsbury to Dolgellau Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 20:00 hours on 1 March 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the trunk road that extends from the centre of the junction of Raven Street with Raven Roundabout to a point 10 metres east of that junction.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

24 March 2021



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458
(CYLCHFAN RAVEN, Y TRALLWNG, POWYS)
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A458, neu gerllaw iddi, yn y Trallwng, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith) rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A458 sy'n ymestyn o ganol cyffordd Raven Street â Chylchfan Raven hyd at bwynt 10 metr i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin yw mynd ar yr A458 Raven Street/Mount Street/High Street tua'r dwyrain, ar Jehu Road tua'r gogledd ac ar y B4381 tua'r gorllewin. Dylai traffig sy'n teithio tua'r dwyrain ddilyn y B4381 Brook Street tua'r dwyrain, yr A458 Church Bank/Salop Road tua'r gogledd, Mill Lane a'r A458 Church Street tua'r de a'r A458 Broad Street/High Street/Mount Street/Raven Street tua'r gogledd-orllewin.

Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 1 Mawrth 2021 a disgwylir i'r gwaharddiad dros dro fod yn weithredol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) o 1–5 Mawrth 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf, rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A458 TRUNK ROAD (RAVEN
ROUNDAABOUT, WELSHPOOL, POWYS)
(TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES)
ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A458 trunk road at Welshpool, Powys.

The effect of the Order is to prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works) from proceeding on the length of the A458 trunk road that extends from the centre of the junction of Raven Street with Raven Roundabout to a point 10 metres east of that junction.

The alternative route for westbound traffic is via the eastbound A458 Raven Street/Mount Street/High Street, northbound Jehu Road and westbound B4381. Eastbound traffic should follow the eastbound B4381 Brook Street, northbound A458 Church Bank/Salop Road, southbound Mill Lane and A458 Church Street and north-westbound A458 Broad Street/High Street/Mount Street/ Raven Street.

The Order comes into force on 1 March 2021 and the temporary prohibition is expected to operate overnight (20:00 – 06:00 hours) from 1 – 5 March 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government